Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

29 Medi 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur** | **Adroddiad Cyllid 2016-2017** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **B B 54.16** |
| **Paratowyd y Papur gan:** | Rob Bell – Pennaeth Cyllid<br>Andrea Morgan – Rheolwr Cyllid Busnes |
| **Noddwyd y Papur gan:** | **Kevin Ingram – Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Craffu** |
| **Argymhelliad:** | Craffu ar y perfformiad ariannol ar gyfer 2016-2017<br><br>Nodi'r eitem a anfonwyd at Lywodraeth Cymru i'w chymeradwyo ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd |
| **Oes angen penderfyniad:** | Nac oes |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Noder – mae'n bosibl na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r testun | **Edrych ar y tymor hir:**<br>Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn ariannol flaenorol a'r un gyfredol, yn ogystal â'r gwaith rheoli ariannol cadarn sy'n elfen bwysig wrth gynllunio ar gyfer y tymor hir.<br><br>**Defnyddio dull integredig:**<br><br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn modd cydweithredol:**<br><br>**Atal problemau rhag digwydd:**<br>Mae'r papur hwn yn amlinellu'r camau sy'n cael eu cynnal i liniaru ar ostyngiadau i'n cyllid ni yn y dyfodol. |

## Diben

1. Darparu diweddariad ar gyfer y Bwrdd ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf ar gyfer 2016-2017, a nodi'r eitem a anfonwyd at Lywodraeth Cymru i'w chymeradwyo.

## Cefndir

2. Cafodd y Gyllideb Ddiwygiedig rydym yn mesur perfformiad ariannol yn ei herbyn ei chymeradwyo gan y Bwrdd ar 6 Gorffennaf 2016. Roedd hon yn ystyried newidiadau i'r Gyllideb Agoriadol a oedd wedi cael ei chymeradwyo ym mis Mawrth 2016.

## Asesu

### Adroddiad ariannol ar gyfer y flwyddyn hyd yma

3. Gwelir dadansoddiad o'r perfformiad ariannol fel yr oedd ar ddiwedd Awst 2016 yn **Atodiad A**. Rydym wedi rhoi rhagor o fanylion er mwyn i'r Bwrdd weld perfformiad ariannol yn ôl cyfarwyddiaeth, yn ogystal â math o incwm a gwariant. Rydym wedi cynnwys y manylder ychwanegol hwn o ganlyniad i adborth a gafwyd gan rai aelodau o'r Bwrdd. Dyma'r un adroddiad mae'r Tîm Gweithredol yn ei weld bob mis.

4. Mae'r sefyllfa ariannol gyffredinol ar ddiwedd mis Awst 2016 yn gadarnhaol. Mae incwm o flaen y Gyllideb ac mae'n debygol o barhau i fod. Mae gwariant o dan y Gyllideb yn bennaf oherwydd amseru/llithro, ond hefyd cyfleoedd i wneud arbedion pellach y flwyddyn ariannol hon.

5. Mae incwm o flaen y proffil o 4% (neu £3.2 miliwn). Rydym yn disgwyl i'n hincwm ni o ffioedd fod yn unol â'r Gyllideb, ond mae ein hincwm masnachol o flaen y proffil. Mae'r Tîm Cynaeafu a Marchnata yn ailasesu eu rhagolwg ar gyfer incwm o bren ym mis Medi ar hyn o bryd, ac maent yn hyderus ar yr adeg hon y byddwn yn rhagori ar ein cyllid ar gyfer y flwyddyn gyfan.

6. Mae gwariant yn 5% (neu £3.2 miliwn) o dan y proffil. Mae hyn yn bennaf oherwydd llithro/amseriadau cynlluniau gwariant. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn arwain at arbedion y flwyddyn ariannol hon.

7. Rydym yn cynnal adolygiad canol blwyddyn o'r cynnydd yn erbyn y Gyllideb yn ystod mis Medi, a bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Tîm Gweithredol ym mis Hydref ac yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

### Cymeradwyaethau ariannol gan Lywodraeth Cymru

8. Mae'r eitem ganlynol wedi cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w chymeradwyo yn ystod 2016-2017. O dan ein Cynllun Dirprwyo Ariannol, mae'r eitem hon yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd er gwybodaeth.

| Eitem | Gwerth £ miliwn | Disgrifiad | Cymeradwyaeth |
|---|---|---|---|
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Pontarddulais | £5.596 miliwn | Cynllun lliniaru llifogydd – gwariant ategol, cynnydd o £1.223 miliwn o £4.373 miliwn i £5.596 miliwn. | Cafwyd cymeradwyaeth ar 15 Awst 2016. |

## Argymhellion

9. Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar y perfformiad ariannol ar gyfer 2016-2017.

10. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r eitemau a anfonwyd at Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo ers y cyfarfod diwethaf.

## Risgiau allweddol

11. Rhestrir yr holl risgiau a chyfleoedd rydym yn ymwybodol ohonynt yn Atodiad A. Dyma'r rhai mwyaf sylweddol:

    - Risg: yn fuan, byddwn yn gwybod beth yw effaith elfen ad-daliadau'r broses gwerthuso swyddi, ac a yw ein darpariaeth gyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn ddigonol.
    - Cyfle: rydym o flaen y proffil eleni ar gyfer ein hincwm o bren, a byddwn yn cadarnhau'n hwyrach y mis hwn p'un a ydym yn ddigon hyderus i gynyddu ein cyllid ar gyfer y flwyddyn.

12. Rydym yn disgwyl gwybod ein ffigur cyllid drafft ar gyfer 2017-2018 ym mis Hydref. Yn y cyfamser, rydym yn cynllunio ar sail gyllid llai ar gyfer y blynyddoedd nesaf, ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar ddull i sicrhau ein bod yn byw o fewn yr incwm rydym yn ei dderbyn.

## Goblygiadau ariannol

13. Mae'r papur ar sefyllfa ariannol a pherfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn codi, ar wahân i'r amser a dreuliwyd yn gwneud gwaith rheoli ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru a chreu'r adroddiad hwn.

## Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

14. Dim angen.

**Atodiad**
Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Ariannol ar gyfer 2016